Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Blwyddyn archwilio: 2021–22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3286A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o gyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 10

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio 18

Atodiad 3 – archwilio risgiau cyfrifon 19

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio 2022 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o gyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

3 Cynhaliwyd gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal â mynd i'r afael â'r heriau uniongyrchol a gyflwynwyd gan yr argyfwng iechyd cyhoeddus, roedd cyrff iechyd hefyd yn ceisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth. Felly, cynlluniwyd fy rhaglen waith i sicrhau pobl Cymru orau fod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda. Rwyf wedi ystyried effaith yr argyfwng presennol ar gadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r argyfwng, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell i raddau helaeth fel y bo modd drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuwyd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio, ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Fel yn achos y ddwy flynedd flaenorol, mae cyflawniad fy ngwaith archwilio cyfrifon wedi parhau o bell gan mwyaf. Mae'r llwyddiant wrth ei gyflawni yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan fy staff a swyddogion y Bwrdd Iechyd.

6 Rwyf wedi addasu pwyslais ac ymagwedd fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr argyfwng ac i alluogi gweithio o bell. Rwyf wedi gwneud sylwadau am sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am ofal a gynlluniwyd. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi sôn am sut mae trefniadau llywodraethu wedi eu haddasu er mwyn ymateb i'r

pandemig, a'r effaith y mae'r argyfwng wedi ei chael ar y broses o ddarparu gwasanaethau.

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Cyflwyna **Atodiad 2** yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â'm gwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2022.

9 Noda **Atodiad 3** y risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2022 a sut yr aed i'r afael â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 7 Chwefror 2023. Bydd y Bwrdd yn derbyn yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn derbyn copi. Rydym yn annog y Bwrdd Iechyd yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o gyfrifon

12 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd[1] wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn cywir a theg ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad ariannol).

13 Fodd bynnag, cymhwysais fy marn ar reoleidd-dra oherwydd bod y cyfrifon yn cynnwys darpariaeth cyfrifyddu (a gwariant cyfatebol) o £2.193 miliwn, yr ystyriaf yn afreolaidd. Mae'r swm yn ymwneud ag amcangyfrif atebolrwydd y Bwrdd Iechyd sy'n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Effeithiodd y mater ar fyrddau iechyd eraill Cymru hefyd.

14 Ni ddeuthum o hyd i unrhyw faterion rheoleidd-dra eraill o natur andwyol perthnasol. O ran perfformiad ariannol, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, o gymharu â'i derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf.

[1] Rwyf yn archwilio ac yn ardystio Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd. Term generig yw 'cyfrifon'.

15 Adroddais am wyth mater archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd swyddogion yr holl argymhellion yn ffurfiol, gan gytuno ar gamau rheoli a dyddiadau gweithredu. Byddaf yn adolygu cynnydd y Bwrdd Iechyd gyda'r gweithredoedd yn rhan o'm harchwiliad ar gyfer 2022–23.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

16 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad yr Awdurdod wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol mewn adfer rhestrau aros, mae'r twf sylweddol yn niferoedd y bobl sy'n aros yn debygol o olygu na fydd rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig am flynyddoedd lawer.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar flaenoriaethau ansawdd a diogelwch ar bob lefel o'r sefydliad. Mae strwythurau corfforaethol a gweithredol ar gyfer llywodraethu ansawdd yn weddol effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau agweddau ar wella ansawdd a diwylliant. Mae angen buddsoddiad pellach i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno ac ymwreiddio gwelliannau ansawdd a diogelwch a gynlluniwyd yn llawn.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei bwyslais strategol ar gyfluniad ei ystad yn y dyfodol, ond nid oes amlygrwydd digonol ar lefel y Bwrdd o gyflwr yr ystad bresennol.
- yn gyffredinol, mae trefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol, ac economaidd o adnoddau yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae cynlluniau i adnewyddu strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach drwy sicrhau bod strwythurau, prosesau, ac adnoddau allweddol yn gwbl gyson ag amcanion a risgiau strategol.

17 Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau hyn yn yr adrannau canlynol.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o gyfrifon

18 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion, a'i lifau arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

19 Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad cyfrifon 2021–22 a manylir ar hyn ynghyd â sut yr aed i'r afael â nhw yn **Arddangosyn 4** yn **Atodiad 3**.

20 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau, sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2021–22

21 Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi eu paratoi'n briodol a'u bod yn sylweddol gywir (cywir a theg), ac rwyf wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad ariannol).

22 Adroddais am wyth mater archwilio, ynghyd â'm hargymhellion archwilio, i'r swyddogion a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Derbyniodd swyddogion yr holl argymhellion yn ffurfiol, gan gytuno ar gamau rheoli a dyddiadau gweithredu.

23 Cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon, mae'n rhaid imi adrodd ar faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (Aelodau'r Bwrdd) fel y gallant eu hystyried. Adroddodd fy nhîm archwilio y materion hyn i'r Bwrdd ar 14 Mehefin 2022. Crynhoa **Arddangosyn 1** faterion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Bwrdd**

| Mater | Sylwadau'r Archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Mae un maes o ran camddatganiadau nas cywirwyd. Mae'n ymwneud â gwerth adeiladau y Bwrdd Iechyd, ac roedd eu gwerth a ddatganwyd ar gyfer 31 Mawrth 2022 £10.280 miliwn yn rhy isel.<br>Roedd camddatganiadau yn y tri datgeliad cysylltiedig hefyd, gan<br>symiau o £8.184 miliwn, £2.096 miliwn, a £331,000. |

| Mater | Sylwadau’r Archwilwyr |
|---|---|
| | Rwyf yn barnu nad yw’r pedwar camddatganiad yn berthnasol i’m barnau archwilio ar gyfrifon 2021–22. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Adroddais nifer o gamddatganiadau pwysig a gywirwyd sy’n ymwneud yn bennaf â dosbarthiadau cyfrifyddu a datgeliadau. |
| Materion arwyddocaol eraill | Adroddais wyth argymhelliad ar gyfer gwella, gydag ymatebion ffurfiol y rheolwyr. Ystyriodd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd nhw ar 6 Medi 2022. |

24 Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflenni Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y Bwrdd Iechyd. Penderfynais fod gwybodaeth gydgrynhoi y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2022 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

25 Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol yn parhau i fynd rhagddynt ar hyn o bryd. Rwyf i fod i adrodd fy nghanfyddiadau i Fwrdd Ymddiriedolwyr y Bwrdd Iechyd ar 9 Chwefror 2023.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

26 Cymhwysais fy marn ar reoleidd-dra oherwydd bod cyfrifon 2021–22 yn cynnwys darpariaeth cyfrifyddu (a gwariant cyfatebol) o £2.193 miliwn, yr ystyriaf yn afreolaidd. Mae’r swm yn ymwneud ag amcangyfrif atebolrwydd y Bwrdd Iechyd sy’n deillio o Gyfarwyddyd Gweinidogol yn 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Effeithiodd y mater ar fyrddau iechyd eraill Cymru hefyd.

27 Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn ymdrin â’r angen am gamau adfer interim i fynd i’r afael ag effaith newidiadau Trysorlys EF i’r trefniadau treth ar gyfraniadau pensiwn uwch-glinigwyr. Gosodais adroddiad naratif esboniadol ochr yn ochr â’m hadroddiad archwilio ar y cyfrifon.

28 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol y Bwrdd Iechyd fod yn unol â’r awdurdodau sy’n eu rheoli nhw. Mae’n rhaid bod gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i dderbyn yr incwm ac i wario’r arian. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan y Bwrdd Iechyd y pwerau i’w derbyn nac i’w hysgwyddo.

29 Pan nad yw’r Bwrdd Iechyd yn cyflawni balans ariannol, mae ei wariant yn fwy na’i bwerau i wario ac felly mae’n rhaid i mi gymhwyso fy marn reoleidd-dra. Dengys

**Arddangosion 2 a 3** fod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei ddyraniadau adnoddau refeniw a chyfalaf.

30 Ac eithrio'r £2.193 miliwn, ni ddeuthum o hyd i unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol nad oedd yn unol â'r awdurdodau nac a ddefnyddiwyd at ddibenion heblaw'r dibenion a fwriadwyd. O ran perfformiad ariannol, cyflawnodd y Bwrdd Iechyd falans ariannol ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. Ers cyflwyno Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, y canlyniad hwn yw'r tro cyntaf i'r Bwrdd Iechyd gyflawni balans ariannol tair blynedd, a hynny ar draws terfynau adnoddau refeniw a chyfalaf.

**Arddangosyn 2: y perfformiad ariannol o'i gymharu â'r dyraniad o adnoddau refeniw**

| | **2019–20 £ mil** | **2020–21 £ mil** | **2021–22 £ mil** | **Cyfanswm £ mil** |
|---|---|---|---|---|
| Treuliau gweithredu | 1,025,612 | 1,205,955 | 1,213,676 | 3,445,243 |
| Y dyraniad o adnoddau refeniw | 1,025,670 | 1,206,045 | 1,213,908 | 3,445,623 |
| Y tanwariant (drosodd) o'i gymharu â'r dyraniad | 58 | 90 | 232 | 380 |

**Arddangosyn 3: y perfformiad ariannol o'i gymharu â'r dyraniad o adnoddau cyfalaf**

| | **2019–20 £ mil** | **2020–21 £ mil** | **2021–22 £ mil** | **Cyfanswm £ mil** |
|---|---|---|---|---|
| Taliadau cyfalaf | 58,070 | 95,343 | 70,948 | 224,361 |
| Y dyraniad o adnoddau cyfalaf | 58,159 | 95,447 | 70,989 | 224,595 |
| Y tanwariant (drosodd) o'i gymharu â'r dyraniad | 89 | 104 | 41 | 234 |

Ffynhonnell: cyfrifon 2021–22 a archwiliwyd

# Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

31 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal adolygiad lefel uchel o sut mae GIG Cymru yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd;
- cynnal adolygiad dilynol o'r argymhellion a wnaed yn fy adolygiad yn 2017 o drefniadau y Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei ystadau;
- cynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus.

32 Nodir isod fy nghasgliadau sy'n seiliedig ar y gwaith hwn.

## Mynd i'r afael â'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd yng Nghymru

33 Ym mis Mai 2022, cyhoeddais adroddiad yn nodi graddau'r ôl-groniad gofal a gynlluniwyd yn GIG Cymru, a'r camau allweddol y mae angen i'r system eu cymryd i ddechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad. Tynna fy adroddiad sylw at dwf parhaus cyffredinol mewn niferoedd rhestrau aros o fis i fis, gan nodi bod cyfradd y twf yn arafu. Mae'n nodi hefyd y byddai'r gostyngiad anochel mewn atgyfeiriadau a welwyd yn ystod y pandemig yn debygol o arwain at y galw cudd hwn yn dod yn ôl i'r system yn y pen draw. O ystyried y ffactorau hyn a ffactorau eraill, amcangyfrifodd fy ngwaith efallai y bydd cyhyd â saith mlynedd cyn i niferoedd cyffredinol y rhestrau aros yng Nghymru ddychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig.

34 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio cynllun adfer cenedlaethol ar gyfer gofal a gynlluniwyd, gyda cherrig milltir allweddol i fyrddau iechyd eu cyflawni, gan gynnwys pwyslais cychwynnol ar y cleifion hynny sy'n wynebu cyfnodau aros hir iawn. Fodd bynnag, mae'r cerrig milltir hynny eisoes yn profi'n anodd eu cyflawni.

35 Yn unol â'r camau allweddol a nodaf yn fy adroddiad, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd, ynghyd ag eraill yng Nghymru, feithrin a gwarchod capasiti ar gyfer gofal a gynlluniwyd, a pharhau i ganolbwyntio ar effeithlonrwydd a chynhyrchiant.

36 Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau hefyd ei fod yn rheoli'n weithredol y risgiau clinigol i gleifion sy'n wynebu arosiadau hir am driniaeth, a gwella ei systemau ar gyfer cyfathrebu â chleifion i'w helpu i reoli eu cyflwr tra eu bod yn aros ac yn rhoi gwybod iddynt beth i'w wneud os bydd eu cyflwr yn gwaethygu.

## Trefniadau llywodraethu ansawdd

37 Archwiliodd fy adolygiad a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, y diwylliant ac ymddygiad sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd.

38 Canfu fy ngwaith **fod y Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar flaenoriaethau ansawdd a diogelwch ar bob lefel o'r sefydliad. Mae strwythurau corfforaethol a gweithredol ar gyfer llywodraethu ansawdd yn weddol effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i gryfhau agweddau ar ddiwylliant ac i wella ansawdd, ac mae angen buddsoddiad pellach i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno'n llawn ei welliannau ansawdd a diogelwch arfaethedig, gan eu gwreiddio. Mae angen gwella trefniadau archwilio clinigol yn sylweddol ac mae lle i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad drwy sicrhau ei fod yn goruchwylio risgiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch yn well.**

39 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar flaenoriaethau ansawdd a diogelwch ar bob lefel o'r sefydliad, canfuom nad oeddent yn ddigon cyson â'i gilydd. Canfuom hefyd fod angen cryfhau trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar yr hyn a gyflawnir ganddo. Mae cyfrifoldeb cyfunol effeithiol am ansawdd a diogelwch ymhlith yr Arweinyddiaeth Weithredol, ac mae strwythurau a phrosesau corfforaethol a gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch yn gwella.

40 Mae trefniadau corfforaethol a gweithredol rhesymol ar waith ar gyfer monitro a rheoli risgiau. Fodd bynnag, mae lle i sicrhau bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Sicrhau Profiad corfforaethol yn cynnal mwy o waith goruchwylio risgiau a oruchwylir gan bwyllgorau eraill pan fo effaith glir ar ansawdd a diogelwch. Mae agendâu ar gyfer cyfarfodydd ansawdd a diogelwch corfforaethol a gweithredol yn darparu cwmpas eang o faterion ansawdd a diogelwch i'w trafod. Fodd bynnag, gallai agenda cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch, a Sicrhau Profiad corfforaethol fod yn fwy deinamig i adlewyrchu risgiau a materion ansawdd newydd sy'n dod i'r amlwg.

41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu digon o wybodaeth i gefnogi gwaith craffu a sicrwydd ar lefelau bwrdd corfforaethol a chlinigol. Mae defnydd y Bwrdd Iechyd o ddata o safon yn aeddfedu, ac mae ei drefniadau ar gyfer monitro marwolaethau a morbidrwydd yn datblygu. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol i fonitro a dilyn y cynnydd o ran ymdrin â chwynion, lle mae'n cyflawni targedau perfformiad yn gyson. Mae ei drefniadau ar gyfer cipio profiadau cleifion yn weddol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwelliant sylweddol ar y trefniadau archwilio clinigol.

42 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig, sydd wedi ei wreiddio ym mhrosesau'r gweithlu. Fodd bynnag, mae angen iddo wneud yn siŵr bod y staff yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon.

## Adolygiad Dilynol Ystadau

43 Ystyriodd fy ngwaith gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gweithredu'r argymhellion a ddeilliodd o'm hadolygiad yn 2017 o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei ystad. Canfûm **fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd rhesymol o gymharu â'r argymhellion a wneir yn fy adroddiad yn 2017. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu ei bwyslais strategol ar yr ystad yn y dyfodol, ond nid oes amlygrwydd digonol ar lefel y Bwrdd o gyflwr yr ystad bresennol.**

44 Gwnaethom saith argymhelliad yn 2017. Canfu fy adolygiad dilynol fod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu dau argymhelliad, bod dau wedi eu disodli, a bod un yn gyfredol. Ni wnaed unrhyw gynnydd o gymharu â'r ddau argymhelliad. Mae fy adolygiad dilynol yn gwneud tri argymhelliad, gyda'r bwriad o alluogi'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â materion sy'n weddill.

45 Yn benodol, canfûm fod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu strategaeth ystad newydd, a fydd yn gysylltiedig â chynllun cyfalaf a strategaeth ddeng mlynedd diweddaredig y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid oes llawer o oruchwyliaeth na gwaith craffu ar faterion sy'n gysylltiedig â chyflwr yr ystad bresennol ar lefel y Bwrdd.

46 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu newidiadau strwythurol a phroses fel y gellir darparu gwasanaethau ystadau mwy effeithiol, ond mae prinder gweithlu lleol a chenedlaethol a gwahaniaethau cyflog yn cyflwyno risgiau sylweddol ac uniongyrchol i gynnal gwasanaethau diogel ac effeithiol. Yn y tymor hwy, mae hyn yn cyflwyno risgiau posibl i allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal ei ystad bresennol wrth iddo gyflawni ei raglen disodli ac ailddatblygu.

## Asesiad strwythuredig

47 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig 2022 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 yn ogystal â cheisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn ymateb i'r niferoedd sylweddol o bobl sy'n aros am driniaeth a gwella iechyd y boblogaeth.

48 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar drefniadau llywodraethu'r sefydliad; trefniadau cynllunio strategol; trefniadau rheoli ariannol; a threfniadau ar gyfer rheoli'r gweithlu, asedau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill. Talodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol.

### Trefniadau cynllunio strategol

49 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau cynllunio strategol y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- gweledigaeth ac amcanion strategol y sefydliad;
- cynllun tymor canolig integredig;

- trefniadau cynllunio y sefydliad;
- trefniadau'r sefydliad ar gyfer gweithredu a monitro'r broses o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

50 Canfu fy ngwaith **fod dull cynllunio y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ac yn gynhwysol ar y cyfan, gyda goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd a chyfranogiad gan randdeiliaid. Mae'n rhaid i adnewyddu ei strategaeth hirdymor a llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy barhau i fod yn flaenoriaethau allweddol i'r Bwrdd Iechyd.**

51 Mae gan y Bwrdd Iechyd weledigaeth a strategaeth hirdymor sefydledig a thanategir gan raglen glir ar gyfer trawsnewid gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen adnewyddu'r weledigaeth a'r strategaeth er mwyn adlewyrchu'r cyfleoedd a'r heriau presennol. Ar y cyfan, mae trefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd yn effeithiol, ac mae tystiolaeth dda o gyfranogiad gan randdeiliaid ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau corfforaethol. Mae tystiolaeth hefyd o oruchwylio trefniadau cynllunio y Bwrdd Iechyd yn dda ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi gallu llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022–2025 sy'n gytbwys yn ariannol ac a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ei drefniadau ar gyfer gweithredu cynlluniau a strategaethau corfforaethol a monitro'r broses o'u cyflawni. Dylai hyn roi'r sicrwydd angenrheidiol ar lefel y Bwrdd.

## Trefniadau llywodraethu

52 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau llywodraethu y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- effeithiolrwydd y Bwrdd a'r pwyllgorau;
- y graddau y mae cynllun y sefydliad yn cefnogi llywodraethu da; a
- systemau sicrwydd allweddol.

53 Canfu **fy ngwaith fod y Bwrdd Iechyd yn cael ei arwain a'i lywodraethu'n dda ar y cyfan gyda systemau sicrwydd sy'n aeddfedu, strwythur sefydliadol priodol, a thîm gweithredol sefydlog. Mae cynlluniau i adnewyddu strwythurau llywodraethu ac i'w cysoni ag amcanion strategol diwygiedig yn rhoi cyfleoedd i wella effeithiolrwydd a systemau sicrwydd y Bwrdd a phwyllgorau ymhellach.**

54 Mae systemau sicrwydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i aeddfedu ar lefel gorfforaethol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau'r trefniadau ar lefel weithredol. Fodd bynnag, mae lle i wneud mwy o ddefnydd o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i siapio busnes y Bwrdd a phwyllgorau. Er bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn goruchwylio perfformiad y Bwrdd Iechyd yn dda, nid yw adroddiadau yn rhoi digon o sicrwydd bob amser fod camau priodol yn cael eu cymryd i gynnal neu wella'r perfformiad.

55 Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar waith i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae Tîm Gweithredol llawn ar waith sy'n ymddangos yn sefydlog bellach yn dilyn cyfnod o weithredu â phenodiadau interim. Mae'r strwythur sefydliadol yn parhau i fod yn sefydlog ac yn briodol; fodd bynnag, bydd angen ei adolygu'n gyson wrth i'r Bwrdd Iechyd adnewyddu ei strategaeth hirdymor, a chyflwyno modelau clinigol a gweithlu newydd.

## Rheoli adnoddau ariannol

56 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer bodloni amcanion ariannol allweddol;
- rheolaethau ariannol;
- trefniadau ar gyfer adrodd a monitro'r perfformiad ariannol.

57 Canfu fy ngwaith **fod trefniadau digonol ar waith i gefnogi rheolaeth a chynllunio ariannol**. **Er bod cyllid yn cael ei graffu'n dda, mae'n rhaid i wella ei sefyllfa ariannol yn y tymor hwy barhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.**

58 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei holl ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2021–22. Fodd bynnag, methodd â llunio Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n gytbwys yn ariannol ar gyfer 2022–2025. Mae hefyd mewn perygl o beidio â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2022–23 oherwydd yr angen i reoli ei ddiffyg ariannol sylfaenol ac i fynd i'r afael â phwysau costau cynyddol.

59 Mae trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn ddigonol. Mae wedi cymryd camau cadarnhaol i wella tryloywder cyhoeddus drwy sicrhau bod papurau manwl ar atal twyll a chaffael yn cael eu trafod yn gyhoeddus pan fo hyn yn briodol, yn hytrach nag mewn cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd preifat.

60 Mae'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar adroddiadau ariannol yn rheolaidd, ac mae'n darparu trosolwg clir ac agored o berfformiad ariannol, heriau, a risgiau y Bwrdd Iechyd.

## Rheoli'r gweithlu, adnoddau digidol, yr ystad, ac asedau ffisegol eraill

61 Ystyriodd fy ngwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer rheoli ei adnoddau ehangach, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer cefnogi llesiant y staff;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei adnoddau digidol;
- trefniadau ar gyfer rheoli ei ystad ac asedau ffisegol eraill.

62 Canfu fy ngwaith, **er bod goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ac adnoddau digidol, fod lle i gynyddu pwyslais y Bwrdd ar faterion sy'n ymwneud â'r ystad ac asedau ffisegol cyfredol.**

63 Mae goruchwyliaeth dda ar lefel y Bwrdd o’r trefniadau sydd ar waith i gefnogi llesiant y staff. Fodd bynnag, nid yw’r Bwrdd yn cael llawer o sicrwydd am effaith mentrau llesiant staff y Bwrdd Iechyd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn ac mae wrthi’n datblygu ffordd o fesur ac adrodd effaith gweithgareddau llesiant yn effeithiol.

64 Mae gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Ddigidol glir sy’n gyson â’i strategaeth hirdymor bresennol. Mae trefniadau da ar waith i sicrhau bod materion digidol yn cael eu goruchwylio ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, mae diffyg cynlluniau cyflawni manwl, cyllid cyfyngedig, a heriau staffio yn amharu ar gyflymder y Bwrdd Iechyd wrth iddo weithredu ei flaenoriaethau digidol.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2022.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Archwiliad o'r Adroddiad Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2022 |
| Atodiad i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Awst 2022 |
| Cronfeydd Elusennol (Cyfrifon 2020–21) | Ionawr 2022 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru | Mai 2022 |
| Adolygu Trefniadau Llywodraethu Ansawdd | Mehefin 2022 |
| Adolygiad Dilynol Ystadau | Tachwedd 2022 |
| Asesiad Strwythuredig 2022 | Rhagfyr 2022 |

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio 2022 | Mawrth 2022 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2022 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn yn arfer yn cael eu cyllido drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus er mwyn gefnogi ei waith o graffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau amcangyfrifedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Amcangyfrif o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Orthopedeg | Chwefror 2023 |
| Gofal heb ei drefnu – llif cleifion allan o'r ysbyty | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol – Adolygiad Dilynol | Mehefin 2023 |
| Adolygu trefniadau cynllunio'r gweithlu | Mehefin 2023 |
| Gofal heb ei drefnu – mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu | Medi 2023 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Noda fy Nghynllun Archwilio 2022 fy ffi amcangyfrifedig o £394,965 (ac eithrio TAW, nad yw'n daladwy). Byddaf yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Cyllid yn fuan i gadarnhau'r ffi wirioneddol sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r ffi amcangyfrifedig uchod; ac am ffi amcangyfrifedig ar wahân a ffi wirioneddol fy archwiliad o gyfrif elusennol 2021–22 y Bwrdd Iechyd (disgwylir i'r archwiliad ddod i ben ym mis Chwefror 2023).

# Atodiad 3

## Archwilio risgiau cyfrifon

**Arddangosyn 6: archwilio risgiau cyfrifon**

Roedd fy Nghynllun Archwilio 2022 yn nodi'r risgiau ar gyfer archwilio cyfrifon 2021–22 y Bwrdd Iechyd. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [ISA 240.31–33]. | Byddaf yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol;<br>• ychwanegu gweithdrefnau ychwanegol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau penodol o ran gwrth-wneud gan reolwyr nad ydynt yn cael sylw gan y gwaith gorfodol uchod. | Adolygais nifer o'r amcangyfrifon cyfrifyddu a sampl o drafodiadau a oedd yn cynnwys cofnodion cyfnodolion. Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol iawn. |
| O dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, gwnaeth byrddau | Byddaf yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, cadarnhaodd fy archwiliad fod y Bwrdd |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| iechyd roi’r gorau i gael terfynau adnoddau blynyddol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Yn hytrach, gwnaethant symud i derfyn adnoddau tair blynedd treigl, gyda therfyn ar gyfer refeniw a therfyn arall ar gyfer cyfalaf. Roedd y cyfnod tair blynedd cyntaf yn rhedeg i 31 Mawrth 2017.<br>Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mynd y tu hwnt i’w derfyn refeniw tair blynedd treigl yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, ac felly rwyf wedi cymhwyso fy marn reoleidd-dra ar y datganiadau ariannol ar gyfer y blynyddoedd hynny.<br>Ar gyfer 2021–22 a’r tair blynedd hyd at 31 Mawrth 2022, mae’r Bwrdd Iechyd yn rhagweld[2] y bydd yn gweithredu o fewn ei derfynau adnoddau refeniw a chyfalaf, yn amodol ar gyllid COVID-19 2021–22 a ragwelir, sef £21.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Os yw’r Bwrdd Iechyd yn derbyn yr arian disgwyliedig, ac yn cynnal ei sefyllfa a | 2021–22 a’r sefyllfa gronnol ar gyfer y tair blynedd sy’n gorffen ar 31 Mawrth 2022, ar gyfer y terfynau refeniw ac adnoddau cyfalaf.<br>Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried hefyd effaith unrhyw gamddatganiadau perthnasol nas cywirwyd yn ystod y tair blynedd.<br>Os bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â chyrraedd y terfynau adnoddau tair blynedd o ran refeniw a/neu gyfalaf, byddwn yn disgwyl cymhwyso fy marn reoleidd-dra ar ddatganiadau ariannol 2021–22. Efallai y byddaf hefyd yn gosod adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol i esbonio sail y cymhwyster ac o dan ba amgylchiadau yr oeddent wedi codi.<br>Byddaf yn canolbwyntio rhai o’m profion ar feysydd o’r datganiadau ariannol a allai gynnwys rhagfarn wrth lunio adroddiadau. | Iechyd wedi cyflawni ei ddyraniad adnoddau tair blynedd ar gyfer refeniw a chyfalaf. |

[2] Ar sail rhagolygon diwedd y flwyddyn Mis 11, y mae’r Bwrdd Iechyd wedi eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| ragwelir, byddai'n cefnogi barn reoleidd-dra ddiamod.<br>Fodd bynnag, mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr fod yn rhagfarnllyd mewn ymdrech i fodloni'r ddyletswydd ariannol. | | |
| Mae gweithredu menter 'cynllun sy'n talu' mewn cysylltiad â threfniadau treth pensiwn y GIG ar gyfer staff clinigol ar y gweill. Y llynedd, gwnaethom gynnwys paragraff 'pwyslais ar fater' yn y farn archwilio, gan dynnu sylw at eich datgeliad o'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Bydd ceisiadau ar gyfer y cynllun yn cau ar 31 Mawrth 2022, ac os gwneir unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn, byddwn yn ei ystyried yn afreolaidd, gan ei fod yn groes i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. | Byddaf yn adolygu'r dystiolaeth flwyddyn yn ddiweddarach, ynghylch y nifer sy'n manteisio ar y cynllun a'r angen am ddarpariaeth, a'r effaith ganlyniadol ar y farn rheoleidd-dra. | Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, ar gyfer 2021–22, darparodd y Bwrdd Iechyd ar gyfer atebolrwydd a chostau amcangyfrifedig o £2.193 miliwn ac, fel y cynghorir yng Nghynllun Archwilio 2022, cymhwysais fy marn reoleidd-dra yn unol â hynny. |
| Er y disgwylir i gyfyngiadau COVID-19 gael eu dileu yng Nghymru ar 28 Mawrth | Rwyf yn parhau i drafod eich proses o gau cyfrifon a threfniadau | Fe wnes i barhau â'm trafodaethau â swyddogion, gan fonitro'r trefniadau sydd ar waith, |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| 2022, bu pwysau parhaus ar adnoddau staff a gweithio o bell a allai effeithio ar y broses o baratoi, archwilio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol. Mae risg y gallai ansawdd y cyfrifon a'r papurau gwaith ategol gael eu cyfaddawdu, a fyddai'n arwain at ragor o achosion o wallau. | monitro ansawdd â'r swyddogion perthnasol. | ac rwyf yn falch o adrodd na gododd unrhyw broblemau sylweddol. |
| Mae rhagor o ffrydiau ariannu a gwariant o hyd yn 2021–22 ar gyfer ymdrin â phandemig COVID-19. Gallent gael effaith sylweddol ar y risgiau o gamddatganiad perthnasol a siâp a dull ein harchwiliad. Mae enghreifftiau o faterion yn cynnwys: risgiau twyll, gwallau a rheoleidd-dra y gwariant ychwanegol (gan gynnwys darfod) prisio stocrestr diwedd y flwyddyn, gan gynnwys cyfarpar diogelu personol; ac amcangyfrif balansau gwyliau blynyddol diwedd y flwyddyn. | Byddaf yn nodi'r materion allweddol a'r risgiau cysylltiedig ac yn cynllunio fy ngwaith i gael y sicrwydd sydd ei angen arnaf ar gyfer fy archwiliad. | Adolygais drafodiadau a balansau sy'n ymwneud â COVID-19, a'u profi nhw fel y bo hynny'n briodol. Roedd canfyddiadau fy archwiliad yn foddhaol. |
| Archwiliaf rai o'r datgeliadau yn yr adroddiad taliadau hyd at lefel o berthnasedd sy'n llawer is, megis | Byddaf yn archwilio'r holl gofnodion yn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth i wirio ei fod yn berthnasol gywir. | Archwiliais bob cofnod a chywirwyd camddatganiadau yn ôl yr angen. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Y gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| taliadau uwch-swyddogion ac aelodau annibynnol. Felly, yn y bôn, mae’r camddatganiadau yn fwy tueddol i gael eu camddatgan yn berthnasol. Mewn archwiliadau yn y gorffennol, rwyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad drafft ar daliadau cydnabyddiaeth a gyflwynwyd ar gyfer fy archwiliad y bu’n rhaid i’r Bwrdd Iechyd ei gywiro. Felly, rwyf yn barnu bod datgeliadau 2021–22 mewn perygl o gamddatganiad. | | |
| Rwyf hefyd yn archwilio trafodiadau a balansau partïon cysylltiedig a ddatgelir i lefel o berthnasedd sy’n llawer is. Y llynedd, canfûm nifer o ddatgeliadau perthnasol oedd wedi eu hepgor a bu’n rhaid eu hychwanegu. | Byddaf yn gwirio bod yr holl ddatganiadau a lofnodwyd sy’n angenrheidiol wedi eu derbyn, eu gwerthuso, a’u datgelu’n briodol ac yn gywir.<br>Mae fy archwiliadau hefyd yn cynnwys dulliau eraill o brofi, megis fy adolygiad o gofnodion Tŷ’r Cwmnïau gan ddefnyddio dadansoddeg data. | Adolygais yr holl ddatgeliadau, gan ymgymryd â’r profion a fwriadwyd gennyf er cyflawnrwydd. Deuthum o hyd i rai anghysonderau a gywirwyd, ac felly roedd fy mhrofion cyffredinol yn foddhaol. |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.